

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Cwmfelin

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Cwmfelin yn amgylchedd anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r pennaeth dros dro effeithiol, uwch arweinwyr a staff medrus, yn creu ethos lle mae disgyblion yn gwybod eu bod yn bwysig ac yn gallu datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a brwdfrydedd yn eu gwersi. Maent yn mwynhau'n fawr y clybiau a'r gweithgareddau ychwanegol niferus y maent yn eu mynychu, fel y clwb crefftau a gwersi ffidil. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl.

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Dangosant ofal a charedigrwydd cyson, ac o ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn gyfforddus i geisio help a gofyn am gymorth pan fydd angen. Mae'r addysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae staff yn cynnig profiadau teilwredig i unigolion yn rheolaidd, sy'n cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ac yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu medrau siarad, gwrando a darllen. Fodd bynnag, nid yw cynnydd disgyblion hŷn o ran datblygu medrau ysgrifennu a medrau llafaredd Cymraeg mor gryf.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn galluogi disgyblion i ddilyn diddordebau penodol a datblygu eu meddwl annibynnol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn archwilio amrywiaeth o gwestiynau o fewn testun trosfwaol o'r enw 'ymholiad'. Mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu o fewn cyd-destunau dilys. Mae prosiect 'Big Bocs Bwyd', lle caiff bwyd fforddiadwy ei ddarparu i'r gymuned leol, yn enghraifft ragorol o hyn. Mae ymagwedd yr ysgol at y ddarpariaeth hon yn hynod effeithiol o ran cefnogi medrau bywyd disgyblion fel coginio a defnyddio arian. Yn ychwanegol, mae'n cynorthwyo disgyblion hŷn i ymgymryd â rolau arwain defnyddiol wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau penodol fel stocio'r silffoedd. Mae pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o sesiynau dysgu rheolaidd a buddiol yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn dyfnhau eu gwybodaeth am fywyd gwyllt ar dir yr ysgol ac yn datblygu eu ffitrwydd trwy redeg y 'filltir ddyddiol'.

# Argymhellion

**A1 Gwella addysgu ysgrifennu estynedig i sicrhau bod disgyblion hŷn yn datblygu a threfnu eu syniadau'n effeithiol**

**A2 Sicrhau bod addysgu Cymraeg yn adeiladu'n raddol ar fedrau llafaredd disgyblion ar draws yr ysgol**

**A3 Gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a ariennir gan y grant datblygu disgyblion, i sicrhau bod arweinwyr yn gwybod am yr effaith a gaiff ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion bregus**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â darparu profiad dysgu dilys trwy eu darpariaeth hynod fuddiol, sef Big Bocs Bwyd.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Cwmfelin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 217 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 161 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 4.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/11/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 18/01/2016 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 23/01/2023 |
| Penodwyd y pennaeth parhaol ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, ymgymerodd â secondiad amser llawn gyda Chonsortiwm Canolbarth y De o fis Tachwedd 2022. Dirprwy bennaeth parhaol yr ysgol yw’r pennaeth dros dro. Caiff ei chefnogi gan ddau bennaeth cynorthwyol dros dro ar hyn o bryd. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.